WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygu'r Ystadau – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**


Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 939A2018-19

Mae'r ddogfen hon wedi ei pharatoi fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod Adran 45 yn cyflwyno'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Yr unigolyn a gyflawnodd y gwaith oedd David Poland.

# Cynnwys

Mae'r bwrdd iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i wella'r gwaith o reoli'r ystad, ond byddai'n fuddiol pe bai'n cyflwyno cynllun strategol sy'n adlewyrchu ei weledigaeth ar gyfer darpariaeth gofal iechyd yn y dyfodol.


Adroddiad cryno

Cefndir 4

Prif ganfyddiadau 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Mae'r tîm ystadau yn ymwneud â chynllunio strategol drwy broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig, ond nid oes gan y bwrdd iechyd strategaeth ystadau gytunedig 8

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i wella ei reolaeth o'r ystadau a chyfleusterau mewn meysydd allweddol 13

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb rheolwyr 25

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1 Mae ystad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru (GIG Cymru) yn bodoli i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae adeiladau a seilwaith yn adnoddau gwerthfawr sy'n gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar berfformiad y gwasanaeth iechyd. Mae angen iddynt fod o fath, cyflwr a lleoliad priodol, ond gallant fod yn ddrud i'w rhedeg a'u cynnal a chadw.

2 Fel arfer, mae gan fyrddau iechyd ledled Cymru ystad amrywiol gyda nifer o adeiladau, wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ac o oedran a chyflwr amrywiol. Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan bortffolio ystad o 71 o adeiladau (Mawrth 2014) sy'n amrywio o safleoedd campws cymhleth fel Ysbyty Brenhinol Gwent i glinigau a chanolfannau iechyd bach. Oherwydd hyn, hwn yw un o'r byrddau iechyd lleol mwyaf amrywiol yng Nghymru, gyda gwerth eiddo o £395 miliwn ar sail prisiad dosbarth. Mae'r ystad yn cwmpasu 120 hectar (296 erw) i gyd, ac mae gan adeiladu arwynebedd mewnol gros o 311,692m² (3,355,024 troedfedd sgwâr)  (Ffynhonnell: Strategaeth Ystadau Ddrafft 2015–2020).

3 Er bod buddsoddiadau mawr wedi disodli nifer o ysbytai a chlinigau, mae'r bwrdd iechyd yn meddu ar, ac yn gweithredu, safleoedd sydd ag adeiladau dros 100 mlwydd oed o hyd. Mae ganddo seilwaith fel dosbarthu ynni, draeniau a gwresogi sy'n cael anhawster cynnal y gwasanaethau sydd ar waith oddi mewn iddynt. Mae ganddo hefyd adeiladwaith sy'n dirywio. Mae 46% o'r ystad dros 40 mlwydd oed.

4 I reoli ystad yn llwyddiannus, mae angen mewnbwn ac ymdrech gan fyrddau iechyd, ac mae hyn yn ymwneud â dau weithgaredd eang:

- rheolaeth strategol yr ystad – pwysig ar gyfer gwneud penderfyniadau cadarn ynghylch y defnydd cyfredol o ystadau a'u datblygiad yn y dyfodol. Dylai'r bwrdd, gyda chefnogaeth gweithwyr proffesiynol perthnasol, bennu pa ystad sydd ei hangen i gefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau, cymeradwyo cynlluniau i gyflawni hyn, a darparu trosolwg. Bydd Cynllun Tymor Canolig Integredig y bwrdd iechyd yn ddylanwad allweddol ar hyn. Heb ddull gweithredu strategol, mae perygl na fydd penderfyniadau ynghylch rheoli'r ystad a datblygu gwasanaethau wedi eu cydlynu. Mae hyn yn creu risg bellach y gallai buddsoddiad ariannol yn yr ystad gael ei gyfeirio at y mannau anghywir.
- rheolaeth weithredol yr ystad – pwysig ar gyfer sicrhau bod yr ystad yn parhau i fod yn addas i'r diben o un dydd i'r llall, a bod gweithwyr proffesiynol yn gallu caffael, addasu a chael gwared ar rannau o'r ystad fel y bo angen.

5 Dylai rheoli'r ystad mewn modd effeithiol ac effeithlon gyflawni gwerth am arian. Fodd bynnag, gall methu â rhoi digon o sylw i naill ai materion strategol neu weithredol arwain at arian yn cael ei wastraffu a, weithiau, cyflenwi gwasanaethau nad ydynt o'r ansawdd gorau i ddefnyddwyr.

6 Amlygodd ein hasesiad strwythuredig ar gyfer 2017 nad oes gan y bwrdd iechyd strategaeth ystadau, cynllun ystadau nac arolygiadau cyfredol o gyflwr ei adeiladau. Felly, gallai'r bwrdd iechyd wneud penderfyniadau o ran caffael, gwaredu a buddsoddi mewn adeiladau o safbwynt unigol, yn hytrach nag o safbwynt yr ystad gyfan. Gall diffyg strategaeth ystadau hefyd olygu bod y bwrdd iechyd yn cadw meddiant ar eiddo nas defnyddir, gan wynebu costau ychwanegol diangen. Mae'r bwrdd iechyd yn paratoi ar gyfer agoriad Ysbyty Athrofaol y Grange a gwasanaethau newydd yn y gymuned. Mae hyn yn unol â'i Strategaeth Dyfodol Clinigol. Mae'n bwysig fod y bwrdd iechyd yn adolygu ei anghenion presennol a'i anghenion i ddod ar gyfer adeiladau, a gwneud newidiadau priodol.

7 Yn ei Strategaeth Ystadau ddrafft, noda'r bwrdd iechyd y bydd rhaglen y Strategaeth Dyfodol Clinigol yn arwain at newidiadau mawr i'w ystad, a bydd yn cael canlyniadau pellgyrhaeddol ar fuddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol. Bydd angen i unrhyw strategaeth sy'n dod i'r amlwg nodi dull o weithredu cynlluniau wrth gefn hefyd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau gael eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol pe na bai'r cynlluniau'n datblygu fel y rhagwelir ar hyn o bryd.

8 Mae ein hadolygiad wedi ceisio ateb y cwestiwn canlynol: a yw'r bwrdd iechyd yn rheoli ei ystadau'n effeithiol? I ateb y cwestiwn hwn, rydym wedi ystyried y canlynol:

- a yw dull strategol y bwrdd iechyd o reoli'r ystadau yn gadarn

  a yw'r bwrdd iechyd yn parhau i wneud gwelliannau mewn meysydd allweddol

# Prif ganfyddiadau

Deuir i'r casgliad cyffredinol fod y bwrdd iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i wella'r gwaith o reoli'r ystad, ond byddai'n fuddiol pe bai'n cyflwyno cynllun strategol sy'n adlewyrchu ei weledigaeth ar gyfer darpariaeth gofal iechyd yn y dyfodol. Mae Arddangosyn 1 yn nodi ein prif ganfyddiadau mewn mwy o fanylder.

Arddangosyn 1: ein prif ganfyddiadau

| Ein prif ganfyddiadau |
|---|
| **Mae'r tîm ystadau yn ymwneud â chynllunio strategol drwy broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig, ond nid oes gan y bwrdd iechyd strategaeth ystadau gytunedig.**<br>• Nid oes gan y bwrdd iechyd strategaeth ystadau gytunedig<br>• Mae'r tîm ystadau yn ymwneud â chynllunio strategol drwy broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig.<br>• Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n peilota dull newydd o asesu ac adrodd ar ei ystad, ond mae'n cymryd yn hirach nag y disgwyliwyd ar y dechrau i'w gwblhau.<br>• Mae eglurder ynghylch atebolrwydd, rolau a chyfrifoldeb rheolwyr yr ystadau.<br>• Mae systemau ar waith i gofnodi data asedau a chefnogi gwaith cynnal a chadw. |

| Ein prif ganfyddiadau |
| --- |
| **Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i wella ei reolaeth o'r ystadau a chyfleusterau mewn meysydd allweddol.**<br>• Mae'r bwrdd iechyd yn perfformio'n dda yn erbyn dangosyddion cenedlaethol, o'i gymharu â'r cyfartaledd dros Gymru gyfan.<br>• Mae systemau clir ar gyfer rheoli perfformiad, ond mae lle i ddefnyddio adborth defnyddwyr gwasanaethau ac arolygiadau ôl-waith yn well.<br>• Mae'r bwrdd iechyd yn gwario cyfran uchel o'i gyllideb cynnal a chadw ar waith trwsio ymatebol, sy'n adlewyrchu oedran a chyflwr yr ystad bresennol.<br>• Mae gan y bwrdd bolisi clir ar gyfer cael gwared ar ased pan na fydd ei angen bellach, ac mae'n defnyddio canllawiau cenedlaethol a lleol i gael gwared ar asedau.<br>• Mae'r bwrdd iechyd yn ymwybodol o risgiau, ac yn blaenoriaethu camau gweithredu gan ddefnyddio adborth gan ddefnyddwyr.<br>• Mae'r bwrdd iechyd yn mynd ati i sicrhau bod gan staff a chontractwyr y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth effeithiol.<br>• Mae'r rheolwyr yn cymryd camau cadarnhaol i wella boddhad staff a lefel absenoldebau salwch. |

# Argymhellion

| Argymhellion | |
| --- | --- |
| A1 | Dylai’r bwrdd iechyd ddatblygu strategaeth ystadau wedi'i chostio'n llawn cyn gynted â phosibl, fel yr argymhellwyd yn ein hasesiad strwythuredig ar gyfer 2017 (Rhagfyr 2017). |
| A2 | Dylai’r bwrdd iechyd gwblhau'r adroddiad arolygu 'chwe agwedd' er mwyn llywio'r strategaeth ystadau. |
| A3 | Dylai'r is-adran gynnwys amrediad o ddangosyddion perfformiad allweddol yn ei dangosfwrdd perfformiad. Dylai'r rhain gynnwys boddhad defnyddwyr a thargedau cwblhau. |
| A4 | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cwblhau ôl-arolygiadau ar gyfer canran o drwsiadau fel rhan o broses rheoli ansawdd systemaidd. Dylai gynnwys y canlyniadau yn ei ddangosfwrdd rheoli perfformiad lleol. |

# Adroddiad manwl

## Mae dull y bwrdd iechyd o reoli ystadau yn parhau i ddatblygu, ond nid adlewyrchir hyn mewn cynllun strategol a gytunwyd gan y bwrdd.

### Nid oes gan y bwrdd iechyd  strategaeth ystadau gytunedig.

9 Nid oes gan y bwrdd iechyd strategaeth ystadau gytunedig. Cawsom gopi o'r Strategaeth Ystadau ddrafft ar gyfer 2015–2020. Roedd hen wybodaeth wedi'i chynnwys yn hon. Er enghraifft, roedd y data perfformiad yn ymwneud â 2014–15 ac nid oes unrhyw wybodaeth ariannol.

10 Serch hyn, mae'r bwriad strategol ar gyfer swyddogaeth yr ystadau wedi'i nodi yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y bwrdd iechyd am y cyfnod rhwng 2018–19 a 2020–21. Mae rhaglen gyfalaf hefyd, sy'n nodi'r gwariant cyfalaf sydd ei angen yn ystod y flwyddyn nesaf. Fel ag yr oedd ym mis Gorffennaf 2018, y Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan ar gyfer y bwrdd iechyd oedd £126,512,000. Roedd hyn yn cynnwys £126 miliwn ar gyfer datblygiad Ysbyty Athrofaol y Grange a £512,000 ar gyfer y rhaglen '111'.

11 Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys dyraniadau statudol (£625,000), ymrwymiadau parhaus o 2017–18 (£3,314,000), blaenoriaeth genedlaethol gwybodeg (£1,223,000), blaenoriaeth genedlaethol delweddu (£1,210,000) a datblygiadau gwasanaeth (£1,033,000). Mae gan flaenoriaethau is-adrannol risg uchel, fel 'gwaith hanfodol a'r amgylchedd' ac 'amnewid offer' gyfanswm cyfunol o £2,161,000. Yn erbyn cyfanswm cyllid cyfalaf o £10,814,000, cynigir gwario o £9,556,000, sy'n gadael balans o £1,248,000 heb ei ddyrannu.

12 Mae ein gwaith maes wedi cadarnhau bod yr uwch-reolwyr a'r gweithredwyr yn deall yr angen am strategaeth ystadau gytunedig. Yn ein hadroddiad ar Asesiad Strwythuredig 2017 (Rhagfyr 2017), gwnaethom amlygu ein pryder nad oedd gan y bwrdd iechyd gynllun ystadau nac arolwg cyfredol o gyflwr ei adeiladau. Nid oedd penderfyniadau ynghylch caffael, cynnal a chadw a chael gwared ar ystad y bwrdd yn cael eu rheoli'n strategol. Cawsom wybod bod y bwrdd iechyd yn datblygu arolwg 'chwe agwedd' i wella cywirdeb arolygiadau cyflwr. Pan fyddai hwn wedi'i gwblhau, byddai'n cael ei ddefnyddio i gefnogi datblygiad strategaeth ystadau gytunedig ac yn helpu i dargedu'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw ar gyfer yr ystad bresennol.

13 Yn ein hasesiad strwythuredig ar gyfer 2017, gwnaethom yr argymhelliad canlynol:

> ‘Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu Strategaeth Ystadau sy'n adlewyrchu cyflwr presennol ei adeiladau ac yn helpu i gyflawni'r Strategaeth Dyfodol Clinigol.’

14 Dyma oedd ymateb y bwrdd iechyd i'n hargymhelliad:

> ‘Yn ddiweddar, cwblhaodd y bwrdd iechyd arolwg ac iddo chwe agwedd o gyflwr ei holl safleoedd er mwyn darparu canllawiau a thystiolaeth ar gyfer adolygiad llawn strategol o ystadau.
>
> Caiff yr arolwg hwn ei ddatblygu'n strategaeth ystadau hollgyffredinol ar gyfer y bwrdd a fydd yn eistedd ochr yn ochr â'r rhaglen dyfodol clinigol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.'

15 Dengys ein hadolygiad mai ychydig iawn o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r argymhelliad hwn. Cawsom wybod bod yr arolwg 'chwe agwedd' wedi'i gwblhau, ac y byddai'n cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad y Strategaeth Ystadau, ond ychydig iawn o dystiolaeth o hyn a ganfuwyd gennym.

## Mae'r tîm ystadau yn ymwneud â chynllunio strategol drwy broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

16 Y prif fater strategol sy'n effeithio ar yr ystadau yw datblygiad Ysbyty Athrofaol y Grange. Fel y nodwyd uchod, mae wedi'i gytuno bellach y bydd datblygiad y Grange yn mynd ymlaen gyda chyllid o £126 miliwn gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, mae'r bwrdd iechyd wrthi'n datblygu strategaeth ystadau nawr, sy'n seiliedig ar y Strategaeth Dyfodol Clinigol.

17 Ym mis Mehefin 2018, cytunodd y bwrdd iechyd ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd o hyd. Nododd ymateb Llywodraeth Cymru fod y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn dangos cynllun tair blynedd cytbwys a chyraeddadwy gydag aeddfedrwydd cynyddol yn ei drefniadau cynllunio. Gwnaeth yr ymateb hefyd nodi bod Llywodraeth Cymru yn edrych ymlaen at weld cynnydd o ran y newid gweddnewidiol i'r gwasanaethau y mae'r sefydliadau hyn wedi'i nodi yn y cynlluniau dros y tair blynedd nesaf.

18 Roedd y tîm ystadau yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae adran ar wahân yn y Cynllun ar Gyfalaf ac Ystadau fel galluogydd ar gyfer y Cynlluniau Newid Gwasanaethau strategol. Mae'r adran Cyfalaf ac Ystadau yn cynnwys y rhagolwg cyllid cyfalaf i'r bwrdd iechyd dros y tair blynedd nesaf cyn agor Ysbyty Athrofaol y Grange. Mae'n cynnwys y problemau a'r risgiau a fydd yn dod i'r amlwg. Mae hefyd yn disgrifio gwaith y ffrwd waith Cyfalaf Strategol ac Ystadau a rheolaeth rhaglen gyfalaf y bwrdd iechyd.

19 Datblygodd y tîm ystadau ei Gynllun Tymor Canolig Integredig ei hun, ynghyd â phob is-adran arall. Cafodd y rhain eu bwydo i mewn i'r cynllun lefel bwrdd cyffredinol. Gwnaeth y tîm ystadau gymryd rhan bellach ym mhroses gyffredinol y Cynllun Tymor Canolig Integredig, oherwydd caiff pob Cynllun Tymor Canolig Integredig is-adrannol ei ddosbarthu i bob is-adran arall er gwybodaeth ac i gael sylwadau. Defnyddir y broses hon hefyd i lywio'r rhaglen gyfalaf. Gwnaeth y tîm ystadau wirio bod Cynlluniau Tymor Canolig Integredig is-adrannau eraill a'u gofynion cyfalaf yn gwneud synnwyr.

20 Mae'r broses yn sicrhau bod elfennau ystadau o fewn pob Cynllun Tymor Canolig Integredig is-adrannol, yn ogystal ag o fewn Cynllun Tymor Canolig Integredig cyffredinol y bwrdd iechyd. Mae ymgysylltu, felly, rhwng yr is-adran Ystadau a'r gwaith o gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae hyn yn bwysig, oherwydd dylai'r Strategaeth Ystadau derfynol fod yn gysylltiedig â phroses ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

21 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2018–19 i 2020–21 yr Ystadau a Chyfleusterau yn helpu i lywio cyfeiriad strategol yr is-adran. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer yr is-adran yn cynnwys y canlynol:

- datblygu strategaeth ystadau sy'n seiliedig ar yr allbynnau o'r arolwg 'chwe agwedd'
- cyflwyno model arlwyo cynaliadwy yn ysbyty Sant Cadog, Ysbyty'r Sir ac Ysbyty Gwynllyw
- sicrhau bod y gwasanaeth dihalogi a sterileiddio yn gallu cefnogi Prifysgol Athrofaol y Grange a gwaith ad-drefnu gwasanaethau dilynol
- gwella'r mannau parcio ceir yn Ysbyty Nevill Hall a cheisio dod o hyd i ddarpariaeth arall i'w rhoi yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn lle safle Whiteheads
- datblygu a gweithredu cynllun gweithlu cynaliadwy ar gyfer yr is-adran ar ôl comisiynu Ysbyty Athrofaol y Grange
- gweithredu datrysiad rheoli TG integredig ar gyfer gwasanaethau arlwyo, porthorion, cynnal a chadw, rheoli'r ystad a glanhau

22 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig Is-adrannol yr Ystadau a Chyfleusterau yn cydnabod yr angen i ddatblygu strategaeth ystadau lawn er mwyn ystyried targedau hirdymor y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, mae'r strategaeth hon yn cymryd amser i'w datblygu. Felly, bydd y bwrdd iechyd yn mynd i'r afael ag amrediad o ffactorau sy'n ymwneud ag ystadau ac sy'n effeithio ar ddewis cleifion a chyflawniad targedau gweithgarwch. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys:

- gwella cyflwr ffisegol adeiladau ac amgylchedd y bwrdd iechyd
- ceisio lleihau heintiau a geir mewn ysbytai
- gwella'r preifatrwydd a'r urddas i gleifion
- darparu cyfleusterau y gellir eu glanhau i'r safonau gofynnol
- ymdrin â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw
- cwblhau a gweithredu targedau yn unol â'r arolwg chwe agwedd
- mynd i'r afael â'r pum prif risg o un flwyddyn i'r llall

## Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n peilota dull newydd o asesu ac adrodd ar ei ystad, ond mae'n cymryd yn hirach nag y disgwyliwyd ar y dechrau i'w gwblhau.

23 Fel y nodwyd uchod, mae'r bwrdd iechyd yn peilota'r arolwg 'chwe agwedd' er mwyn dod o hyd i ffyrdd o wella adroddiadau. Hwn fydd y bwrdd iechyd cyntaf yng Nghymru i wneud hyn. Bydd y bwrdd iechyd yn defnyddio'r arolwg i arfarnu eiddo. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i asesu a yw'r adeiladau gofal iechyd yn addas i'r diben o ran eu defnydd, eu cyflwr a'u cydymffurfiaeth. Dyma'r chwe agwedd a asesir ac a safonir:

- Agwedd 1: Arolwg Cyflwr Ffisegol (adeiladwaith a systemau mecanyddol a thrydanol): Caiff cyflwr ffisegol yr ystad ei asesu ar dair elfen: adeiladwaith mewnol ac allanol adeiladau, systemau mecanyddol a systemau trydanol.
- Agwedd 2: Archwiliad Cydymffurfiaeth Statudol (gan gynnwys tân): Caiff tân, iechyd a diogelwch eu hasesu ar ba mor dda mae'r eiddo'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth statudol.
- Agwedd 3: Archwiliad o Ddefnydd Gofod: Caiff y defnydd o ofod ei asesu ar gyfres o farnau a wneir ar ddwysedd y defnydd, h.y. nifer y bobl sy'n ei ddefnyddio a pha mor aml y maen nhw'n ei ddefnyddio.
- Agwedd 4: Adolygiad o Addasrwydd Ymarferol: Caiff addasrwydd ymarferol ei asesu ar dair elfen: rhyngberthnasau'r gofod mewnol, cyfleusterau cymorth a lleoliad.
- Agwedd 5: Archwiliad Ansawdd: Caiff ansawdd ei asesu ar dair elfen: amwynder, cysur a dyluniad.
- Agwedd 6: Archwiliad Rheolaeth Amgylcheddol: Caiff rheoli amgylcheddol ei asesu ar effeithlonrwydd cyffredinol yr eiddo, ac mae ynni yn ffactor hanfodol o hyn.

24 Caiff pob agwedd ei rhannu'n systemau adeiladu ac elfennau adeiladwaith, yn ogystal ag amlygu gwybodaeth am yr eiddo. Yn dilyn yr adolygiadau, darperir sgôr ar gyfer pob agwedd fawr ar yr eiddo. Gellir defnyddio hwn wedyn i lywio diweddariadau i'r Strategaeth Ystadau (a/neu i gynlluniau ad-drefnu eiddo a buddsoddi), fel y disgrifiwyd gan Estatecode – ac fel y cyfeiriwyd ato yn 'Datblygu Strategaeth Ystadau' yr Adran Iechyd.

25 Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau ac yn darparu costau buddsoddi dangosol. Mae'r holl arolygiadau cyflwr ar yr ôl-groniad (yr agwedd 'cyflwr ffisegol') yn seiliedig ar ddull seiliedig ar risg yr Adran Iechyd o asesu'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw.

26 Mae rhyddhad cynnar yr adroddiad arolygu chwe agwedd yn hanfodol i ddatblygiad y Strategaeth Ystadau. Bydd yn rhoi syniad clir i'r bwrdd iechyd o gyflwr y portffolio eiddo er mwyn cynorthwyo penderfyniadau strategol. Mae'r gwaith wedi cymryd yn hirach na'r disgwyl i'w gwblhau, ond pan fydd ar gael, disgwylir i'r adroddiad terfynol wneud y canlynol:

- meintioli cynnydd yng nghost yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw
- nodi rhan sylweddol o'r ystad nad yw'n cael ei defnyddio
- nodi a mesur faint o ofod nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon
- nodi ardaloedd lle nad yw'r ymarferoldeb yn bodloni'r anghenion cyfredol
- rhestru a dod o hyd i gyfleoedd gwella o ran defnyddio ynni'n effeithlon

## Mae eglurder ynghylch atebolrwydd, rolau a chyfrifoldeb rheolwyr yr ystadau.

27 Y Cyfarwyddwr Gweithredol lefel bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb gweithredol cyffredinol dros yr ystadau a chyfleusterau yw'r Prif Swyddog Gweithredu. Mae'n cyflawni'r swyddogaeth hon drwy Gyfarwyddwr Is-adran yr Ystadau a Chyfleusterau.

Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad sy'n gyfrifol am gynllunio cyfalaf a'r rhaglen gyfalaf. Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yw cadeirydd y Grŵp Ystadau a Chyfalaf Strategol a Grŵp y Rhaglen Gyfalaf.

28 Y bwrdd iechyd sydd â'r cyfrifoldeb dros reoli ystadau a gwariant cyfalaf yn y pen draw, ond mae ganddo amrediad o bwyllgorau i'w gynorthwyo â'r swyddogaethau hyn.

29 Mae'r bwrdd wedi dechrau ymarferiad ad-drefnu mawr i baratoi ar gyfer agoriad Ysbyty Athrofaol y Grange a gwasanaethau newydd yn y gymuned. Mae hyn yn unol â'i Strategaeth Dyfodol Clinigol. I helpu i gyflawni hyn, mae'r bwrdd iechyd wedi sefydlu Grŵp Safleoedd Dyfodol Clinigol er mwyn rheoli portffolio'r ystad. Mae gan y grŵp y swyddogaethau canlynol:

- arwain y gwaith sy'n gysylltiedig â chael gwared ar safleoedd dros ben, gan gynnwys yr adroddiadau a'r cymeradwyaethau angenrheidiol
- goruchwylio a chefnogi'r gwaith caffael safleoedd sydd angen ei wneud ar gyfer darparu safleoedd ar gyfer datblygiadau Cyfalaf Dyfodol Clinigol, a sicrhau bod dulliau cymeradwyo ac adrodd priodol ar waith
- sicrhau bod arferion da, fel y'u nodwyd yn Estatecode[1] ac mewn mannau eraill, yn cael eu defnyddio ar bob adeg

Mae'r grŵp yn atebol i'r Bwrdd Strategol Dyfodol Clinigol, sydd, yn ei dro, yn adrodd i'r bwrdd iechyd.

30 Mae llinellau atebolrwydd clir ar gyfer yr ystadau. Mae'r Prif Swyddog Gweithredu'n cadeirio cyfarfodydd y chwe is-adran o fewn y bwrdd iechyd – gan gynnwys Bwrdd Is-adran yr Ystadau a Chyfleusterau. Mae gan bob is-adran arweinydd ystadau.

[1] Llawlyfr defnyddwyr ar gyfer sefydliadau'r GIG sy'n rheoli'r ystad gofal iechyd ar gyfer ei defnyddio nawr ac yn y dyfodol yw Estatecode. Mae'n cynnwys cyngor ar ystod eang o bynciau ystadau, gan gynnwys trafodion tir a materion cynllunio tref, a chyfarwyddyd ar asesiadau sylfaenol ar gyflwr yr ystad, fel rhan o'r prosesau a gweithdrefnau o wneud penderfyniadau ar gynlluniau a buddsoddiadau corfforaethol.

Mae hyn yn sicrhau llinellau cyfathrebu clir i'r bwrdd ar faterion ystadau drwy'r Prif Swyddog Gweithredu.

31 Mae'r Prif Swyddog Gweithredu'n cadeirio cyfarfod sicrwydd (a fynychir gan gynrychiolwyr o'r adran Adnoddau Dynol ac Ansawdd) yn ogystal â chyfarfod misol gyda'r Prif Weithredwr. Yn ogystal â hyn, mae Bwrdd Is-adran yr Ystadau a Chyfleusterau yn cynnal cyfarfod adolygu bob chwe mis a chyfarfod adolygu blynyddol gyda'r Tîm Gweithredol. Ceir herio yn y cyfarfodydd hyn gan adrannau corfforaethol, gan gynnwys y Tîm Cyllid.

32 Mae aelod annibynnol i gynrychioli'r ystadau ar lefel bwrdd ac i ddarparu her briodol.

Mae Cyfarwyddwr Is-adran yr Ystadau a Chyfleusterau'n cadeirio cyfarfod busnes misol gyda'r Bwrdd Uwch-reolwyr o fewn yr is-adran a chyfarfod cyllid misol gyda'r Bwrdd Uwch-reolwyr. Mae nodiadau gweithredu'n cofnodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i swyddogion eu cymryd. Caiff y nodiadau eu hadolygu wedyn a'u dilyn i fyny yn y cyfarfod dilynol. Er nad oes unrhyw strategaeth ystadau gyffredinol, mae arweinwyr y gwasanaeth yn ymwybodol o'r blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth.

## Mae systemau ar waith i gofnodi data asedau a chefnogi gwaith cynnal a chadw.

33 Mae'r bwrdd iechyd yn defnyddio System Rheoli Eiddo MICAD i storio gwybodaeth am yr ystad. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am faterion cydymffurfio statudol (e.e. rheoli asbestos, diheintio, diogelwch trydanol a legionella). Mae'r system yn cadw gwybodaeth amrywiol, gan gynnwys cronfa ddata ar risgiau, torri prydles eiddo, ystadau gweithredol, a gwaith cynnal a chadw arfaethedig ac ymatebol. Mae'r wybodaeth ar gael yn ôl lleoliad safle ysbyty, adeilad ac ystafell.

34 Caiff Hysbysiadau Peryglon Llywodraeth Cymru eu dosbarthu o fewn y Tîm Ystadau pan fyddant wedi mewngofnodi ar MICAD. Rhaid i staff adrodd ar y camau a gymerwyd cyn y gallant gael eu cadarnhau fel rhai a gwblhawyd. Caiff pob cam ei adrodd i'r Grŵp Cydymffurfiaeth Statudol, sy'n cwrdd bob dau fis. Os nad ydynt wedi'u cadarnhau, maen nhw'n cael eu rhoi ar Gofrestr Risg o ôl-groniad gwaith cynnal a chadw, i'w huwchgyfeirio o fewn y bwrdd iechyd.

35 Mae Gwaith Cynnal a Chadw Ataliol Arfaethedig (PPM) yn statudol fel arfer, a chaiff gwaith cynnal a chadw ymatebol ei wneud yn unol â blaenoriaethau. Gwneir hyn gan staff mewnol fel arfer. Gall contractwyr gael eu defnyddio mewn rhai amgylchiadau.

36 Yn ogystal â MICAD, mae'r bwrdd iechyd hefyd yn rheoli ei gronfa ddata eiddo drwy system o'r enw E-PIMS (Gwasanaeth Mapio Gwybodaeth am Eiddo electronig). Mae hyn yn cynnwys y manylion ar gyfer pob adeilad ar brydles ac adeiladau rhydd-ddaliadol. Mae'n dangos disgrifiad o'r eiddo, telerau unrhyw brydlesi a dyddiadau dod i ben, yn ogystal ag unrhyw gyfamodau ar y tir.

37 Mae gan y bwrdd iechyd y system LAPP (Portffolio Tir ac Eiddo) hefyd, sy'n darparu mwy fyth o fanylion ar eiddo na'r e-PIMS.

38 Bydd y bwrdd iechyd yn gosod dolen i ganlyniadau'r arolwg chwe agwedd pan fydd ar gael ar MICAD. Bydd hwn yn cael ei beilota dros Gymru gyfan, a bydd y data cyfuno yn cael ei storio yn MICAD yn y pen draw.

# Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i wella ei reolaeth o'r ystadau a chyfleusterau mewn meysydd allweddol.

## Mae'r bwrdd iechyd yn perfformio'n dda yn erbyn dangosyddion cenedlaethol, o'i gymharu â'r cyfartaledd dros Gymru gyfan.

39 Mae'r bwrdd iechyd yn llenwi ffurflenni Systemau Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau GIG Cymru. Sefydlwyd System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau GIG Cymru (EFPMS) yn 2002. Mae'r system yn annog dull disgybledig o gasglu, lledaenu ac adolygu data, ac mae'n cefnogi penderfyniadau strategol ar lefel leol a chenedlaethol.

40 Mae'r EFPMS yn caniatáu i gyrff y GIG fewnbynnu a chwestiynu data mewn amser real a chymharu perfformiad yn erbyn cyrff eraill y GIG, yn Lloegr yn ogystal ag yng Nghymru. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (NWSSP-SES) yn darparu cymorth ac arweiniad ar gwblhau ffurflenni'r EFPMS, ac mae'n chwarae rhan yn y gwaith o herio a dilysu'r wybodaeth a gyflwynwyd. Mae'r NWSSP-SES yn defnyddio'r data i lunio adroddiadau blynyddol ar berfformiad ystadau a chyfleusterau ystad GIG Cymru, gan gyflwyno'r data ar lefel sefydliadol a safle ysbyty.

41 Mae Arddangosyn 3 yn dangos perfformiad y bwrdd iechyd ar ddangosfwrdd ystadau GIG Cymru ar gyfer 2016–17. Dengys hyn fod y bwrdd iechyd yn perfformio'n dda yn gyffredinol, yn enwedig o ran cydymffurfio â diogelwch tân, addasrwydd ymarferol a defnydd o ofod.

42 Mae Arddangosyn 4 yn dangos sut mae perfformiad 2016–17 yn erbyn dangosfwrdd ystadau GIG Cymru yn cymharu â'r flwyddyn flaenorol – a sut mae'n cymharu â'r cyfartaledd dros Gymru gyfan. Parhaodd y perfformiad yn erbyn y pum mesur i fod yn gyson, gyda mymryn o ostyngiad mewn 'cydymffurfio statudol a diogelwch' o 90% i 89%. Graddiwyd pob dangosydd yn 'oren' neu 'gwyrdd'.

Arddangosyn 3: perfformiad yn erbyn dangosfwrdd ystadau GIG Cymru 2016–2017

Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cenedlaethol – Canran yr ystad sydd o safon resymol, ac sydd felly'n syrthio o fewn Estatecode 'b'/'f' neu'n uwch.

| | Physical Condition (%) | Statutory & safety compliance (%) | Fire safety compliance (%) | Functional suitability (%) | Space utilisation (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| ABERTAWE BRO MORGANNWG UNIVERSITY HEALTH BOARD | 79 | 90 | 100 | 90 | 97 |
| ANEURIN BEVAN UNIVERSITY HEALTH BOARD | 89 | 89 | 95 | 90 | 90 |
| BETSI CADWALADR UNIVERSITY HEALTH BOARD | 74 | 78 | 79 | 85 | 88 |
| CARDIFF & VALE UNIVERSITY HEALTH BOARD | 80 | 87 | 91 | 57 | 89 |
| CWM TAF UNIVERSITY HEALTH BOARD | 85 | 87 | 85 | 97 | 97 |
| HYWEL DDA UNIVERSITY HEALTH BOARD | 87 | 89 | 93 | 92 | 99 |
| POWYS TEACHING LHB | 62 | 77 | 70 | 72 | 94 |
| VELINDRE NHS TRUST | 85 | 95 | 94 | 88 | 99 |
| WELSH AMBULANCE SERVICES NHS TRUST | 36 | 90 | 90 | 36 | 99 |

Ffynhonnell: Adroddiad ar Gyflwr a Pherfformiad Ystad GIG Cymru 2016–17
Mae'r tabl hwn ar gael yn Saesneg yn unig


Arddangosyn 4: perfformiad yn erbyn dangosfwrdd ystadau GIG Cymru 2016–17 o'i gymharu â 2015–16 a'r cyfartaledd dros Gymru gyfan.

| Meini prawf asesu | Sgôr 2015–16 | Sgôr 2016–17 | Sgôr Cymru gyfan 2016–17 | Graddfa coch, oren a gwyrdd 2016–17 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflwr ffisegol | 89 | 89 | 80 | Oren |
| Cydymffurfio statudol a diogelwch | 90 | 89 | 86 | Oren |
| Cydymffurfiaeth diogelwch tân | 95 | 95 | 90 | Gwyrdd |
| Addasrwydd ymarferol | 90 | 90 | 82 | Gwyrdd |
| Defnydd o ofod | 90 | 90 | 93 | Gwyrdd |

Graddfa coch, oren, gwyrdd: Coch hyd at 75%, Oren 75–89%, Gwyrdd 90% neu'n uwch.

Ffynhonnell: Adroddiad ar Gyflwr a Pherfformiad Ystad GIG Cymru 2016–17 a 2015–16

Arddangosyn 5: perfformiad yn erbyn dangosfwrdd ystadau GIG Cymru 2016–2017 – Defnyddio ynni'n effeithlon




**Energy Performance and Carbon Dioxide ($CO_2$) Emissions**

| | Net Energy Consumption ($kWh/m^2$) | $CO_2$ Emissions* ($kg/m^2$) |
|---|---|---|
| ABERTAWE BRO MORGANNWG UNIVERSITY HEALTH BOARD | 436 | 117 |
| ANEURIN BEVAN UNIVERSITY HEALTH BOARD | 352 | 92 |
| BETSI CADWALADR UNIVERSITY HEALTH BOARD | 442 | 114 |
| CARDIFF & VALE UNIVERSITY HEALTH BOARD | 337 | 96 |
| CWM TAF UNIVERSITY HEALTH BOARD | 426 | 106 |
| HYWEL DDA UNIVERSITY HEALTH BOARD | 489 | 119 |
| POWYS TEACHING LHB | 312 | 78 |
| VELINDRE NHS TRUST | 420 | 130 |
| WELSH AMBULANCE SERVICES NHS TRUST | 153 | 51 |

*Target to be agreed

Ffynhonnell: Adroddiad ar Gyflwr a Pherfformiad Ystad GIG Cymru 2016–17
Mae'r tabl hwn ar gael yn Saesneg yn unig.

43 Mae Arddangosyn 5 yn dangos bod y bwrdd iechyd yn bodloni ei darged perfformiad ynni, a hwn yw'r trydydd corff iechyd gorau yng Nghymru am reoli allyriadau CO2, gyda sgôr o 92. Y sgôr oedd 99 yn 2015–16. 363 oedd y perfformiad ynni yn 2015–16, a gwellodd hwn i 352 yn 2016–17.

Arddangosyn 6: perfformiad yn erbyn dangosfwrdd ystadau GIG Cymru 2016–2017 – Costau gwaith cynnal a chadw mewn perthynas â'r ôl-groniad

**Backlog Maintenance Costs**

*Target to be agreed

| | High Risks (£) | Significant Risks (£) | Moderate Risks (£) | Low Risks (£) | Risk Adjusted Cost (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| ABERTAWE BRO MORGANNWG UNIVERSITY HEALTH BOARD | 1,015,000 | 16,204,281 | 43,300,278 | 7,622,711 | 18,257,701 |
| ANEURIN BEVAN UNIVERSITY HEALTH BOARD | 3,996,000 | 12,748,500 | 6,057,500 | 16,124,000 | 16,045,099 |
| BETSI CADWALADR UNIVERSITY HEALTH BOARD | 20,030,275 | 16,616,312 | 31,889,721 | 14,700,767 | 40,147,041 |
| CARDIFF & VALE UNIVERSITY HEALTH BOARD | 1,117,157 | 26,293,141 | 18,751,045 | 5,622,420 | 28,636,986 |
| CWM TAF UNIVERSITY HEALTH BOARD | 57,851 | 5,035,705 | 7,600,208 | 897,531 | 5,775,712 |
| HYWEL DDA UNIVERSITY HEALTH BOARD | 2,878,571 | 39,406,378 | 11,312,260 | 7,221,290 | 43,385,515 |
| POWYS TEACHING LHB | 1,000,233 | 4,233,702 | 3,462,963 | 308,575 | 5,384,787 |
| VELINDRE NHS TRUST | 25,313 | 781,752 | 412,180 | 915,653 | 831,429 |
| WELSH AMBULANCE SERVICES NHS TRUST | 2,829,060 | 6,779,568 | 2,761,445 | 1,860,192 | 9,778,335 |

The complete dataset upon which this report is based is accessible from the NHS Wales Shared Services Partnership - Specialist Estates Services intranet and internet sites

Ffynhonnell: Adroddiad ar Gyflwr a Pherfformiad Ystad GIG Cymru 2016–17

Mae'r tabl hwn ar gael yn Saesneg yn unig

Mae Arddangosyn 6 yn dangos bod gan y bwrdd iechyd gostau sylweddol o ran yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw. Rhennir y costau hyn fel a ganlyn:

- ‘Risgiau uchel' (£3.996 miliwn)
- ‘Risgiau sylweddol' (£12.749 miliwn)
- 'Risgiau cymedrol' (£6.058 miliwn)
- 'Risgiau isel' (£16.124 miliwn)

44 Y gost wedi'i haddasu yn ôl risg a gofnodwyd yw £16.045 miliwn, sef y pumed uchaf ymhlith y naw corff iechyd yng Nghymru. Gwelir y costau mwyaf yn yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw o fewn y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn Ysbyty Brenhinol Gwent (£2,966,000) ac Ysbyty Nevill Hall (£831,000).

45 Nid oes unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol penodol ar gyfer yr ystadau a chyfleusterau ym mhrif adroddiad y bwrdd. Fodd bynnag, mae'r Is-adran Ystadau a Chyfleusterau wrthi'n datblygu adroddiad perfformio/cydymffurfio a fydd yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod is-adrannol bob chwarter. Bydd hwn yn cynnwys data o'r gronfa ddata ar waith cynnal a chadw. Edrychir ar arbedion effeithlonrwydd yn fewnol drwy'r broses gwella parhaus.

46 Mae adroddiad 2016–17 yr EFPMS ar gyfer y bwrdd iechyd yn cynnwys gwybodaeth am gostau gwasanaethau penodol yn y bwrdd iechyd o'u cymharu â'r cyfartaledd dros Gymru. Mae Arddangosyn 7 isod yn dangos cost y gwasanaethau o'u cymharu â'r cyfartaledd dros Gymru gyfan.

Arddangosyn 7: costau gwasanaethau o'u cymharu â'r cyfartaledd dros Gymru gyfan

| Area | ABUHB | All Wales Average |
|---|---|---|
| Cleaning Service Costs – (per sq. m) | £31.14 | £32.98 |
| Catering Service Costs- (per patient meal) | £3.03 | £3.28 |
| Portering Service Costs – (per sq. m) | £12.17 | £14.36 |
| Laundry & Linen Service Costs – (per piece) | £0.2965 | £0.34 |

Ffynhonnell: Adolygiad Blynyddol Is-adran Ystadau a Chyfleusterau'r Bwrdd Iechyd – Mai 2018 (yn seiliedig ar ddata EFPMS 2016–17)

## Mae  systemau clir ar gyfer rheoli perfformiad, ond mae lle i ddefnyddio adborth defnyddwyr gwasanaethau ac arolygiadau ôl-waith yn well.

47 Mae'r safonau rheoli perfformiad ar gyfer amserau ymateb wedi'u nodi ym Mholisi Gwaith Cynnal a Chadw'r bwrdd iechyd. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Ymateb brys – o fewn dwy awr
- Ymateb blaenoriaethol – o fewn 24 awr
- Ymateb arferol – o fewn 72 awr neu dri diwrnod gwaith
- Ymateb nad yw'n hanfodol – o fewn 168 o oriau neu saith niwrnod

Hefyd, mae gan gontractwyr flaenoriaethau trefn gwaith o dan eu cytundeb lefel gwasanaeth sy'n debyg i'r uchod. Caiff contractwyr sy'n gweithio ar waith cynnal a chadw ataliol arfaethedig eu rheoli yn erbyn y safonau blaenoriaethol gan reolwyr ystadau gweithredol.

48 Defnyddir technoleg i gefnogi gwaith rheoli perfformiad. Gwneir hyn drwy system o'r enw MICAD. Mae hon yn system rheoli eiddo a ddefnyddir fel lle i storio dogfennau ac fel modiwl asesu risg. Defnyddir MICAD i reoli perfformiad rhwymedigaethau statudol fel rheoli dŵr, legionella ac asbestos, sy'n rhan o waith cynnal a chadw ataliol arfaethedig. Mae rhestr o dasgau cynnal a chadw ataliol arfaethedig sy'n cael eu graddio yn ôl y lliwiau coch, oren a gwyrdd ar ôl iddynt gael eu harchwilio gan gontractwyr.

49 Mae gan yr is-adran ganolfan alwadau ar bob safle o fewn ardal y bwrdd iechyd. Rheolir hon drwy system TG o'r enw PLANET. Mae'r galwadau'n ymwneud â gwaith ymatebol (er bod y system hefyd yn cofnodi gwaith statudol), a chânt eu hasesu gan oruchwyliwr ac yna eu dyrannu i weithredwr drwy gynorthwywyr digidol personol llaw. Ar ôl asesu'r gwaith, bydd naill ai wedi ei gwblhau neu angen 'dilyniad'. Mae unrhyw waith a neilltuir i weithredwr yn cynnwys amser teithio, a chaiff swp o waith ei roi i weithredwr mewn un ardal yn aml er mwyn arbed amser ac adnoddau.

50 Mae PLANET yn cynnwys llwybr archwilio o'r gwaith er mwyn monitro'r cynnydd, a bydd goruchwylwyr yn gwirio ansawdd y gwaith a wneir o bryd i'w gilydd. Mae'r system yn gallu cynhyrchu nifer o adroddiadau, gan gynnwys taflenni amser, i weithredwyr. Mae defnyddio PLANET yn sicrhau bod ceisiadau am waith trwsio'n cael eu categoreiddio'n briodol. Ar adeg ein hadolygiad, cawsom wybod bod 'gwaith ar droed' i alinio'r amserau targed yn y polisi gwaith cynnal a chadw gyda PLANET, fel bod modd rheoli perfformiad hwn yn awtomatig.

51 Mae'n arfer da i ôl-archwilio canran o waith trwsio er mwyn sicrhau bod trwsiadau'n cael eu cyflawni i safon uchel. Mae'r bwrdd iechyd yn cyflawni swm sylweddol o waith trwsio bob blwyddyn, ond ni chaiff ôl-archwiliadau eu cynnal yn rheolaidd. Caiff hapwiriadau eu cynnal ar ansawdd y gwaith a wneir, a gofynnir i oruchwylwyr lleol gyflawni dau archwiliad yr wythnos. Defnyddir Ffurflen Asesu Ansawdd, sy'n

rhoi manylion y gwaith sydd i'w wneud a chan bwy, a gafodd y gwaith ei gwblhau ar amser, ac adborth cryno gan y cleient.

52 Caiff y ffurflen ei chymeradwyo gan y swyddog archwilio, a defnyddir hi ar gyfer gwaith cynnal a chadw ataliol arfaethedig ac ymatebol. Nid oes gan y bwrdd iechyd system ffurfiol i sicrhau ei hun fod gwaith trwsio o ansawdd da yn cael ei wneud na bod gwaith trwsio'n cael ei wneud oherwydd trwsiadau gwael yn y gorffennol. Argymhellwn fod y gwasanaeth yn archwilio canran o'r holl waith trwsio bob mis fel rhan o broses rheoli ansawdd reolaidd. Dylid cynnwys canlyniadau'r archwiliadau yn y dangosfwrdd rheoli perfformiad lleol.

53 Bydd gwasanaeth ystadau effeithlon sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn darparu gwasanaethau sy'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau cwsmeriaid yn gyson, a bydd modd gwybod barn cwsmeriaid am y gwasanaeth. Nid oes unrhyw dargedau boddhad defnyddwyr. Fodd bynnag, mae ffurflen foddhad yn cael ei chreu bob deg galwad drwy'r ddesg gymorth. Caiff hon ei hadolygu gan staff y ddesg gymorth, a chaiff y canlyniadau eu hadrodd i'r rheolwyr lleol.

54 Mae'r adroddiad ar y cyfarfod is-adrannol misol yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth am berfformiad, gan gynnwys perfformiad ariannol a dangosyddion perfformiad allweddol y gweithlu. Nid oedd yr adroddiad a ddarparwyd ar ein cyfer yn cynnwys unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol ar berfformiad yr ystadau. Nodwyd y byddai'r rhain yn cael eu darparu bob chwarter yn y dyfodol, yn dilyn cytundeb rhwng y Prif Swyddog Gweithredu a chyfarwyddwr yr is-adran. Roedd y dangosfwrdd oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad dim ond yn cynnwys data gweithlu ar bethau fel absenoldeb salwch, staff mewn swydd, trosiant, Adolygiadau Asesu a Datblygu Personol, hyfforddiant statudol a gorfodol, a'r defnydd o staff asiantaeth a chronfa.

55 Dylid ehangu'r dangosfwrdd i gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol eraill – er enghraifft, cwblhad gwaith cyfalaf, perfformiad yn erbyn ôl-groniad o waith cynnal a chadw, cydymffurfiaeth ag arolygiadau cydymffurfiaeth statudol, a boddhad cwsmeriaid â'r ystadau.


## Mae'r bwrdd iechyd yn gwario cyfran uchel o'i gyllideb cynnal a chadw ar waith trwsio ymatebol, sy'n adlewyrchu oedran a chyflwr yr ystad bresennol.

56 Nid oes gan y bwrdd iechyd strategaeth gwaith cynnal a chadw sy'n cydbwyso'r llwyth gwaith rhwng gwaith ymatebol ac arfaethedig. Fel arfer, mae gwaith trwsio ymatebol – hynny yw, gwaith annisgwyl – yn ddrutach na gwaith cynnal a chadw arfaethedig. Yn yr hirdymor,
dylai mwy o waith arfaethedig arwain at lai o waith ymatebol ac i lai o ddiffygion trychinebus. Fodd bynnag, gallai gwneud gormod o waith cynnal a chadw fod yn faich ar adnoddau mewnol.

57 Dylai adrannau ystadau adolygu lefelau'r gwaith ymatebol a'r gwaith arfaethedig yn gyson er mwyn sicrhau bod cydbwysedd effeithlon rhwng y ddau. Er nad oes gan y GIG unrhyw feincnod arfer da cytunedig, y farn gyffredinol ymhlith adrannau gwaith cynnal a chadw llywodraeth leol yw y dylid fod rhaniad o rhwng 70:30 a 60:40 rhwng gwaith trwsio arfaethedig ac ymatebol yn ôl ei werth.

58 Cwblhaodd yr is-adran 35,269 (47%) o dasgau cynnal a chadw arfaethedig a 39,269 (53%) o geisiadau ymatebol rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018 (gweler Arddangosyn 8). Dengys hyn fod anghydbwysedd rhwng tasgau trwsio arfaethedig ac ymatebol o'u cymharu â'r meincnodau a nodwyd uchod. Mae'r nifer uchel o dasgau ymatebol hefyd yn arwydd o gyflwr gwael ac oedran yr ystad. Nid ydym wedi cael ein gwneud yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau dybryd i symud tuag at wneud mwy o waith cynnal a chadw arfaethedig, ond deallwn fod hyn yn debygol o newid gyda datblygiad newydd arfaethedig y Grange a chael gwared ar asedau oedrannus.

Arddangosyn 8: rhaniad rhwng tasgau ymatebol a thasgau cynnal a chadw ataliol arfaethedig a gwblhawyd yn ystod 2017–18




Ffynhonnell: Adran Ystadau a Chyfleusterau'r bwrdd iechyd

59 Gwariodd y bwrdd iechyd £1.216 miliwn ar waith cynnal a chadw arfaethedig a £0.979 miliwn ar waith cynnal a chadw ymatebol rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018. Mae hyn yn cynrychioli rhaniad o 55%:45%, gyda'r rhan fwyaf yn cael ei wario ar waith cynnal a chadw arfaethedig. Cawsom wybod bod yr is-adran hefyd wedi bod yn ariannu mwy o staff ystadau, i'r swm o £250 mil yn ystod 2018–19, er mwyn cefnogi gwaith cynnal a chadw ataliol arfaethedig, mewn ymgais i

gynyddu canran y gwaith cynnal a chadw ataliol arfaethedig a lleihau'r gwariant ar waith ymatebol.

60 Dywedodd y bwrdd iechyd wrthym nad oedd costau gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol bob amser yn cael eu hystyried wrth gynllunio adeiladau newydd. Mae honiad Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu, fod gan adeiladau mwy newydd lai o gostau cynnal a chadw na hen adeiladau, dim ond yn rhannol gywir. Dylai adeiladau mwy newydd fod yn llai tebygol o dorri i lawr, ond maen nhw'n fwy cymhleth nag adeiladau hynach. Felly, gallai adeiladau mwy newydd fod yn ddrutach i'w cynnal a chadw yn yr hirdymor, a gallai fod angen rhai sgiliau gwahanol.

61 Bydd methu â darparu ar gyfer costau cynnal a chadw adeiladau newydd yn cyfrannu at bwysau cyllidebol i ddod yn yr hirdymor. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r bwrdd iechyd yn cynnwys costau cynnal a chadw yn y gweithdrefnau cadarnhau achos busnes fel rhan o'r RCCS (Canlyniadau Refeniw Cynlluniau Cyfalaf). Hwn oedd yr achos wrth gynllunio Ysbyty Athrofaol y Grange, a chafodd ei ystyried ar gyfer y datblygiadau diweddar yng Nglynebwy ac Ystradmynach.

## Mae gan y bwrdd bolisi clir ar gyfer cael gwared ar ased pan na chaiff ei ddefnyddio mwyach, ac mae'n defnyddio canllawiau cenedlaethol a lleol wrth gael gwared ar asedau.

62 Darperir canllawiau penodol gan y bwrdd iechyd ar y rheolau a gweithdrefnau sydd ganddo i reoli derbyniadau, gwarediadau a materion eraill sy'n ymwneud ag eiddo, sef "Gweithdrefnau a Nodiadau Cyfarwyddyd Cyfalaf", dyddiedig Ionawr 2018. Darperir rhagor o ganllawiau yn Rheolau Sefydlog y bwrdd iechyd ac yn Estatecode.

63 Mae Grŵp Tir ac Eiddo'r bwrdd iechyd yn gyfrifol am reoli derbyniadau, gwarediadau a materion eraill sy'n ymwneud ag eiddo, hyd yn oed pan fydd trafodion o'r fath yn rhan o gynllun cymeradwy. Caiff Grŵp Tir ac Eiddo'r bwrdd iechyd ei gadeirio gan y Rheolwr Cymorth Strategol – Ystadau a Chyfleusterau, a rhaid iddo adrodd i'r bwrdd iechyd a Llywodraeth Cymru yn rheolaidd.

64 Mae'r canllawiau'n nodi'n glir bod yn rhaid i bob tir/eiddo a dderbynnir ac a waredir, waeth beth yw ei faint, gael cymeradwyaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru cyn cael ei gytuno. O ran derbyniadau, gwarediadau a phrydlesi, rhaid gofyn am ganiatâd Llywodraeth Cymru drwy gyflwyniad i Gangen Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau Llywodraeth Cymru, ar ôl cael cymeradwyaeth ar lefel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae canllawiau manwl wedi'u darparu i'r bwrdd iechyd o ran cael gwared ar asedau. Mae'r Strategaeth Ystadau ddrafft yn cynnwys rhestr o warediadau diweddar (tudalennau 7 ac 8). Nodwyd bod cyfanswm o 34 eiddo wedi'u gwaredu. Yn ogystal, adroddwyd yng nghyfarfod cyhoeddus y bwrdd ym mis Mai 2018 fod 29 eiddo wedi'u gwaredu.

## Mae'r tîm ystadau yn ymwybodol o'r risgiau ac yn blaenoriaethu camau gweithredu gan ddefnyddio adborth gan ddefnyddwyr.

65 Mae gan y bwrdd iechyd Gofrestr Risg Iechyd a Diogelwch Gorfforaethol a chofrestri risg is-adrannol. Mae risgiau corfforaethol yn cael eu hadrodd i'r cyfarfodydd bwrdd llawn bob yn ail fis fel rhan o'r Dangosfwrdd Risg Strategol. Caiff yr adroddiad Ystadau a Chyfleusterau ei adolygu bob chwe mis, ym mis Rhagfyr a mis Mehefin, yng nghyfarfod bwrdd yr is-adran. Caiff unrhyw risgiau na chânt sylw yng nghyfarfod yr is-adran eu huwchgyfeirio i'r bwrdd drwy'r Grŵp Cyfalaf. Mae risgiau penodol yn mynd drwy'r gofrestr risg gorfforaethol, ac yna rhaid i'r bwrdd benderfynu ar eu blaenoriaeth berthnasol.

66 Yng Nghofrestr Risg Ystadau a Chyfleusterau ar gyfer mis Rhagfyr 2017, nodwyd cyfanswm o 13 o risgiau fel risgiau 'COCH' wrth ystyried eu tebygolrwydd a'u difrifoldeb. Dim ond tair o'r rhain gafodd eu diwygio i 'OREN' yn dilyn camau gweithredu'r rheolwyr.

67 Gwnaethom adolygu'r Dangosfwrdd Risg Strategol a adroddwyd i'r bwrdd iechyd yn ystod ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2018. Dim ond un risg GOCH oedd yn y dangosfwrdd a oedd yn ymwneud ag ystadau a chyfleusterau, sef:

• colled gyfan gwbl neu rannol (toriadau) o systemau TGCh y bwrdd iechyd, naill ai'r rhai hynny a ddarperir yn genedlaethol gan drydydd partïon neu systemau a ddarperir yn lleol

68 Yn ogystal, cafodd tair risg OREN eu cynnwys fel a ganlyn:

- nid yw Ysbyty Athrofaol y Grange yn cyflenwi yn unol â'r rhaglen ac o fewn y costau cyfalaf / proffil cost cymeradwy
- risg nad yw'r ystad gofal sylfaenol bresennol yn addas i'r diben i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol
- lefelau annigonol o gyllid cyfalaf ar gyfer gofynion yr ystad

69 Mae'r gwaith o flaenoriaethu gwaith cyfalaf yn seiliedig ar naill ai'r risg neu faterion sy'n ymwneud â pharhad busnes. Caiff pob risg ei phrosesu drwy'r Grŵp Cyfalaf, gan gynnwys unrhyw ofynion statudol. Mae'r broses ar gyfer blaenoriaethu a rheoli risg yn glir a dealladwy. Caiff ei chyfathrebu drwy'r strwythur is-adrannol, drwy gyfarfodydd y Prif Swyddog Gweithredu. Mae'n anochel y bydd wastad mwy o alw am fuddsoddiad na'r adnoddau sydd ar gael i ateb yr alw. Noda'r Prif Swyddog Gweithredu fod ganddo ddull clir a chytunedig o ymdrin â hyn er mwyn sicrhau bod dull y bwrdd o fynd ati i flaenoriaethu'n gyson â dull y bwrdd iechyd o reoli risg.

70 Mae'r broses flaenoriaethu'n ystyried adborth sy'n ymwneud â chleifion ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Dangosir hyn drwy bresenoldeb y cynghorau iechyd cymuned yn y grwpiau gofal sylfaenol a gofal cymunedol, yn ogystal â chynrychiolaeth y cynghorau iechyd cymuned ym mhrif gyfarfodydd y bwrdd iechyd, gydag eitem agenda reolaidd ar gyfer adroddiadau'r cynghorau iechyd cymuned.

71 Mae'r tîm ystadau yn cael adborth gan ddefnyddwyr drwy Bwyllgor Amgylchedd yr Ysbyty, a gadeirir gan aelod annibynnol. Mae'r pwyllgor yn cynnal arolygiadau ac yn defnyddio grwpiau ffocws a holiaduron i gael adborth gan gleifion. Caiff hwn ei fwydo i'r broses gynllunio. Mae'r pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiad sicrwydd y Grŵp Gweithredol ar gyfer Ansawdd a Diogelwch Cleifion. Y prif faterion yw parcio ceir, bwyd, yr amgylchedd, estheteg a gwasanaethau 'cwrdd a chyfarch'. Mae'r enghreifftiau a roddwyd o ymatebion i faterion a godwyd yn cynnwys cael gwared ar fannau lle gallai bobl grogi eu hunain mewn ysbytai, yn dilyn pryderon a leisiwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r rhaglen ailwampio wardiau yn Ysbyty Nevill Hall, yn dilyn pryderon a leisiwyd gan y cynghorau iechyd cymuned.

## Mae'r bwrdd iechyd yn mynd ati i sicrhau bod gan y staff a'r contractwyr y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth effeithiol.

72 Un ffordd o sicrhau bod staff yn ystyried gwasanaethau cwsmeriaid fel elfen hanfodol yw defnyddio cod ymddygiad, siarter wasanaeth neu rywbeth tebyg. Mae hyn yn egluro pa ymddygiad y disgwylir gan staff ac mae'n darparu ffordd o gysylltu'r polisïau cyfredol. Mae gan y bwrdd iechyd set o safonau proffesiynol y disgwylir i bob aelod o'r staff weithio tuag ati. Ailadroddir y gwerthoedd yng nghod ymddygiad gorfodol y bwrdd iechyd ar gyfer contractwyr. Mae hwn yn nodi'r ymddygiad y disgwylir gan gontractwyr wrth weithio ar eiddo'r bwrdd iechyd. Mae hefyd 'hysbysiad o berfformiad iechyd a diogelwch annerbyniol', y gellir ei ddefnyddio gan staff i adrodd digwyddiadau o ymddygiad annerbyniol.

73 Gall canlyniadau hysbysiad ymddygiad annerbyniol amrywio o rybudd llafar i dynnu'r contractwr o'r safle. Rhaid i staff y bwrdd iechyd ddilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch ac ymddygiad y bwrdd.

74 Mae'r holl weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol yn gymwys ac wedi'u hyfforddi i'r safonau sy'n ofynnol i'w crefft, sef NVQ Lefel 3 o leiaf. Yn dibynnu ar eu harbenigedd, cânt eu hyfforddi wedyn mewn disgyblaethau penodol i berfformio rôl Unigolyn Awdurdodedig neu Unigolyn Cymwys ar gyfer y disgyblaethau hynny, e.e. nwyon meddygol, trydan, rheoli dŵr a rheoli legionella, diheintio ac ati.

75 Caiff y cymhwysedd ar gyfer yr apwyntiadau hyn ei werthuso gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaeth Ystad Arbenigol. Mae cydymffurfio â'r Memorandwm Technegol Iechyd priodol yn rhan safonol o'r broses asesu. Yn ogystal â hyn, caiff yr holl staff cynnal a chadw eu hyfforddi'n rheolaidd, o fewn y bwrdd iechyd, ar ymwybyddiaeth o asbestos, defnyddio olwynion ysgraffiniol yn ddiogel, gweithio ar uchder ac ati.

76 Disgwylir i gontractwyr gydymffurfio â'r un safonau, a chânt eu rheoli gan god ymddygiad gorfodol y bwrdd iechyd ar gyfer contractwyr. Gweler aralleiriad o hwn isod:

Cymhwysedd

- Bydd disgwyl i bob cwmni sy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fodloni'r holl safonau iechyd a diogelwch priodol, a meddu ar y cymwysterau proffesiynol, achrediadau a hyfforddiant angenrheidiol sy'n berthnasol i'w crefftau neu broffesiynau. Er enghraifft (nid yw hon yn rhestr gyflawn nac yn gyfyngol):
- Dylai fod gan bob contractwr dystysgrif SSIP (Cynlluniau Diogelwch mewn Caffaeliad) i ddangos ei fod wedi'i gymeradwyo gan gorff achrededig i asesu cymhwysedd iechyd a diogelwch, e.e. CHAS, SafeContractor, ac ati.
- Contractwyr trydanol – gosodwyr nwy/plymwyr sydd wedi eu cymeradwyo gan NICEIC (y Cyngor Archwilio Cenedlaethol ar gyfer Contractio Gosodiadau Trydanol); awyru Gas Safe – Sgaffaldwyr y Gymdeithas Contractwyr Gwresogi ac Awyru (HVCA); y Cyd-ffederasiwn Mynediad a Sgaffaldiau Cenedlaethol (NASC); larymau a chyfarpar tân – BAFE (Cwmni Cymeradwyo Cyfarpar Tân Prydain).
- Rhaid i bob unigolyn sy'n gweithio i'r cwmnïau hyn feddu ar gymwysterau proffesiynol perthnasol, fel gradd briodol gan CSCS (crefftau adeiladu), JIB (trydanol), Gas Safe, CCDO (dymchwel), CIRS (sgaffaldiau), CPCS (gweithredwyr peiriannau), prentisiaeth/NVQ cydnabyddedig neu gyfwerth.

77 Caiff y gofynion hyn eu gwirio drwy 'Rhestr Wirio Contractwyr' bob tro y bydd contractwr yn cyrraedd safle i wneud y sesiwn ymsefydlu rhagofynnol o'r safle cyn y rhoddir awdurdod iddo weithio ar y safle. Mae gan y staff a'r contractwyr gymwysterau addas, maen nhw wedi cael hyfforddiant staff, a chofnodir tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Caiff aelodaeth o gyrff fel 'Gas Safe' ei chofnodi ar system MICAD. Gofynnir i gontractwyr ddarparu tystiolaeth o'u lefel o arbenigedd, a chofnodir y manylion ar MICAD. Mae rhestr wirio contractwyr ar y system, yn ogystal â rhestr gymeradwy o gontractwyr. Rhaid i gontractwyr gofrestru cyn i ddarn o waith gychwyn cyn y byddant yn cael bathodyn adnabod neu drwydded i weithio.

78 Blaenoriaeth i'r gwasanaeth yw sicrhau bod pob aelod o staff yn cael Adolygiad o Ddatblygiad ac Arfarnu Personol (PADR) bob blwyddyn. Nododd yr is-adran fod 79.96% o'r gweithlu wedi cael Adolygiad o Ddatblygiad ac Arfarniad Personol ym mis Rhagfyr 2017, yn erbyn targed o 85%. Y meysydd a sgoriodd isaf oedd 'rheoli' (41.67%) a 'gwaith y gellir ailgodi tâl amdano' (42.86%). Mae'n galonogol fod y 'ganran o staff ag Adolygiad o Ddatblygiad ac Arfarniad Personol' yn un o'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n llunio rhan o ddangosfwrdd perfformiad yr ystadau a chyfleusterau, a dylai hyn barhau.

79 Caiff rheolaeth amser nad yw'n gynhyrchiol (e.e. gwyliau, salwch ac ati) ei monitro yng nghyfarfod misol yr is-adran. Nodwyd bod cadw at bolisi salwch y bwrdd iechyd a rheoli amser teithio ar gyfer gwaith cynnal a chadw fel darn parhaus o waith. Ar adeg ein hadolygiad, nodwyd bod y materion hyn yn cael eu hadolygu fel rhan o brosiect gwella parhaus sy'n cael ei wneud i geisio gwella rheolaeth o amser, amserau teithio a'r gwaith i gyflwyno'r prosiect tasgmon.

80 Mae gan staff a chontractwyr allanol y bwrdd iechyd, felly, y cymwysterau priodol i gyflawni eu rolau, ac mae tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus i staff cyflogedig.

## Mae'r rheolwyr yn cymryd camau cadarnhaol i wella lefelau boddhad ac absenoldebau salwch staff.

81 Gwnaeth y bwrdd iechyd gymryd rhan yn Arolwg Staff GIG Cymru 2016. Mae hwn yn arolwg a wneir bob yn ail flwyddyn. Gwnaeth yr Is-adran Ystadau ystyried ei hymateb i'r arolwg ym mis Awst 2017. Dychwelodd yr is-adran 170 o ymatebion, a oedd gyfwerth â chyfradd ymateb o 22%, o'i chymharu â chyfradd ymateb o 33% ar gyfer y bwrdd iechyd yn gyffredinol. Efallai bod un rheswm dros y nifer bychan o ymatebion a ddychwelwyd yn ymwneud â nifer y copïau papur a ddosbarthwyd ymhlith y grŵp staff hwn, oherwydd y mynediad cyfyngedig i gyfrifiaduron a oedd ar gael i unigolion o fewn yr is-adran.

82 Nododd yr is-adran fod y canlyniadau ar ben isaf y raddfa o'u cymharu ag is-adrannau eraill, ond nid y rhain oedd y canlyniadau isaf. Serch hyn, roeddent yn well na'r rhai a gofnodwyd ar gyfer yr un categorïau yn 2013 ar y cyfan.

83 Gwnaeth yr adroddiad is-adrannol a ystyriwyd osod ychydig o gyd-destun ystadegol pellach i'r canlyniadau hynny, ac roedd y rhain i weld yn siomedig ar yr olwg gyntaf. Nodwyd hefyd fod yr arolwg wedi'i gynnal yn 2016, ac roedd blwyddyn wedi mynd heibio ers yr arolwg.

84 Mae'r lefelau salwch o dan 6%, y sgôr orau yng Nghymru ar gyfer y grŵp staff. Tan yn ddiweddar iawn, lefel isel iawn o faterion adnoddau dynol 'cymhleth' oedd wedi'i gweld (Disgyblu, Cwyno, Urddas), o'i chymharu â rhai is-adrannau eraill, a'r lefel isaf yn hanesyddol ar gyfer y grŵp staff. Daw'r adroddiad i'r casgliad nad yw'r dangosyddion lefel uchel yn awgrymu bod boddhad cyflogeion yn isel. Ers yr arolwg yn 2016, mae nifer o gamau gweithredu a mentrau wedi'u rhoi ar waith, sydd wedi'u dylunio i ennyn barn fwy cadarnhaol o weithio o fewn yr is-adran.

85 Gwnaeth yr is-adran lansio'r fenter 'Her Newid 90 Diwrnod Uwch-arweinwyr' ym mis Mai 2018. Mae hwn yn gyfle i staff ddeall beth mae dyfodol y bwrdd iechyd yn ei olygu iddyn nhw a'r ffordd y maen nhw'n gweithio, fel y gallant gael eu 'halinio i'r uchelgais a chymryd cydgyfrifoldeb dros ei gyflawni'. Mae hwn yn gyfle i staff gymryd rhan yn y broses newid y mae'r bwrdd iechyd yn mynd drwyddi i gyflawni ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol.

# Atodiad 1

## Ymateb rheolwyr Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i'r argymhellion ynghylch yr ystadau

Bydd ymateb rheolwyr y bwrdd iechyd yn cael ei osod pan fydd y templed ymateb wedi'i gwblhau. Bydd yr atodiad yn ffurfio rhan o'r adroddiad terfynol, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru pan fydd yr adroddiad wedi'i ystyried gan y bwrdd neu gan bwyllgor bwrdd perthnasol.

Atodiad 1: Ymateb y rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi ei dderbyn (Ydy / Nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r bwrdd iechyd ddatblygu strategaeth ystadau wedi'i chostio'n llawn cyn gynted â phosibl, fel yr argymhellwyd yn ein hasesiad strwythuredig ar | Eglurder ynghylch y cynlluniau hirdymor i'r ystad er mwyn cynorthwyo penderfyniadau a sicrhau bod asedau'r ystad yn cael eu | Ydy | Ydy | Wedi llunio Strategaeth Ystadau ddrafft. Adrodd i Dîm Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar ddydd Llun 19 Tachwedd gyda'r argymhelliad canlynol:<br><br>'Gofynnir i'r Tîm Gweithredol ystyried y strategaeth ddrafft a rhoi cyngor ar unrhyw newidiadau perthnasol sydd | Rhagfyr 2018 / Mai 2019 | Andrew Walker / Glenn Evans |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi ei dderbyn (Ydy / Nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gyfer 2017 (Rhagfyr 2017). | defnyddio'n effeithlon. | | | angen eu gwneud cyn iddi gael ei hystyried gan sesiwn datblygu'r bwrdd iechyd ar 19 Rhagfyr.' | | |
| A2 | Dylai'r bwrdd iechyd gwblhau'r adroddiad arolygu 'chwe agwedd' er mwyn llywio'r Strategaeth Ystadau. | Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio i lywio a chwblhau'r Strategaeth Ystadau. Bydd yn rhoi syniad clir i'r bwrdd iechyd o gyflwr y portffolio eiddo er mwyn cynorthwyo penderfyniadau strategol. | Ydy | Ydy | Gwybodaeth am yr arolwg chwe agwedd ar gael bellach. Gwaith ar droed i symud i hoff gronfa ddata'r bwrdd iechyd. Data'r arolwg yn cael ei ddefnyddio i lywio'r Strategaeth Ystadau. | Tach 2018 | Bob Pratt / Darren Cann |
| A3 | Dylai'r is-adran gynnwys amrediad o ddangosyddion perfformiad allweddol yn ei Dangosfwrdd Perfformiad. Dylai'r rhain gynnwys boddhad defnyddwyr a thargedau cwblhau. | Mae dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu hadrodd, sy'n darparu asesiad o ansawdd a phrydlondeb y gwasanaeth a ddarperir. | Ydy | Ydy | Mae dangosfwrdd o ddangosyddion perfformiad allweddol trosfwaol yr is-adran yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a fydd yn cynnwys data perfformiad ar gyfer pob disgyblaeth gwasanaeth o fewn yr is-adran. Mae enghraifft o ddata perfformiad gwaith cynnal a chadw'r ystadau ar gael. Bydd y daflen ddata hon yn cael ei diwygio i gynnwys boddhad defnyddwyr a thargedau cwblhau. | Ionawr 2019 | Neil Pearce |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi ei dderbyn (Ydy / Nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | (Cyf: Maintenance KPI Dashboard V5) | | |
| A4 | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cwblhau ôl-arolygiadau ar gyfer canran o drwsiadau fel rhan o broses rheoli ansawdd systemaidd. Dylai gynnwys y canlyniadau yn ei ddangosfwrdd rheoli perfformiad lleol. | Mae'r gwasanaeth yn arolygu canran o'r holl waith trwsio bob mis fel rhan o broses rheoli ansawdd systemaidd. Dylid cynnwys canlyniadau'r arolygiadau yn y dangosfwrdd rheoli perfformiad lleol. | Ydy | Ydy | Bydd asesiadau ansawdd yn cael eu cynnal am bob deg cais a dderbynnir, ynghyd â ffurflen boddhad cwsmer i'w chwblhau. Bydd yr adborth yn cael ei gasglu a'i adrodd i ddangosfwrdd perfformiad dangosyddion perfformiad allweddol yr is-adran. | Ionawr 2019 | Neil Pearce |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru